# Asesiad dan Reolaeth:

# Canllawiau i Fyfyrwyr

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

## Rhagarweiniad

Asesiad dan Reolaeth yw unrhyw elfen o'ch cymhwyster sy'n profi gwybodaeth a sgiliau mewn pwnc na ellir ei arholi trwy bapurau arholiad wedi'u hamseru.

Fel arfer mae'r gwaith yn cael ei asesu'n fewnol; hynny yw, wedi'i farcio gan eich athrawon ond mae'n cael ei anfon i'r bwrdd arholi ar gyfer cymedroli. Mae Asesiadau dan Reolaeth yn cael eu cynnal fel arfer o dan amodau arholiad arferol dan oruchwyliaeth. Mae sawl math gwahanol a gallen nhw gael eu cynnal dros ychydig ddiwrnodau.

Mae rhif uned y pwnc yn elfen o'r asesiad dan reolaeth ac mae'n cyfrannu rhif% tuag at eich cymhwyster Safon Uwch terfynol.

Cyn yr asesiad dan reolaeth, bydd eich darlithydd yn esbonio:

- Strwythur a fformat yr asesiad dan reolaeth, gan gynnwys uchafswm geiriau.
- Dyddiadau, amserau, lleoliad a hyd yr asesiad dan reolaeth.
- Yr adnoddau (os o gwbl) y gallwch fynd â nhw gyda chi i'r asesiad dan reoaleth.
- Y rheolaethau fydd yn berthnasol i'r asesiad.
- Y meini prawf marcio fydd yn cael eu defnyddio fel y gallwch ddeall sut y byddwch chi'n ennill credyd.

## Camymddwyn a Llên-ladrad

Byddwch chi'n llofnodi datganiad i gadarnhau mai eich gwaith chi yw'r gwaith rydych yn ei gynhyrchu yn ystod y sesiynau. Bydd eich darlithydd hefyd yn llofnodi i gadarnhau mai eich gwaith chi ydyw.

Os oes gennych ganiatâd i fynd ag adnoddau i mewn i'r asesiad, rhaid i chi sicrhau mai'ch adnoddau chi eich hun ydynt, a bod:

- Gwybodaeth o ffynonellau a gyhoeddwyd, gan gynnwys y rhyngrwyd, yn cael ei chyfeirnodi yn gywir
- Os byddwch chi'n mynd â nodiadau gyda chi i sesiwn gyntaf yr asesiad dan reolaeth, **rhaid** rhoi'r nodiadau hynny i mewn ar ddiwedd y sesiwn ac ni chewch gyflwyno unrhyw nodiadau newydd rhwng sesiynau.

Os amheuir camymddwyn, neu os caiff ei gadarnhau, byddwch yn derbyn 0 am eich asesiad dan reolaeth a gallech fod mewn perygl o gael eich diarddel o'r cymhwyster cyfan. Mae camymddwyn yn cynnwys:

- Cyflwyno gwaith rhywun arall.

SAMPLE

- Sicrhau bod eich gwaith ar gael i ymgeiswyr eraill trwy unrhyw gyfrwng, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol neu grwpiau WhatsApp.
- Caniatáu i ymgeiswyr eraill gael mynediad at eich nodiadau neu ddeunydd arall o ffynonellau annibynnol.
- Cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith.
- Defnyddio llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb eu cyfeirnodi na'u cydnabod.
- Postio unrhyw beth am yr asesiad ar y cyfryngau cymdeithasol neu rannu adnoddau gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Darllenwch y ddogfen hon i'ch helpu i aros o fewn y rheoliadau asesu.

**Absenoldebau Awdurdodedig**

Os byddwch yn absennol yn annisgwyl ar gyfer un o'ch sesiynau asesiad dan reolaeth sydd wedi'u hamserlennu, cewch **un cyfle arall** i wneud iawn am yr amser a gollwyd os caiff eich absenoldeb ei awdurdodi.

Er mwyn i'ch absenoldeb gael ei awdurdodi, rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen hon ynghyd â thystiolaeth ategol o fewn 48 awr i'ch sesiwn wedi'i hamserlennu ac yn unol â'r Polisi Absenoldeb Awdurdodedig.

Os yw eich absenoldeb yn un hirdymor, yna efallai y byddwch yn gymwys i gael ystyriaeth arbennig ond nid oes unrhyw sicrwydd y byddwch yn gallu cwblhau eich asesiad dan reolaeth yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

**Ar ôl Cyflwyno Gwaith**

Pan fydd eich darlithwyr wedi marcio eich asesiad, byddant yn rhoi gwybod i chi am eich marciau cyn eu cyflwyno i'r corff dyfarnu.

Y dyddiad y byddwch yn derbyn eich marciau yw: **Dyddiad**

Ar y pwynt hwn, gallwch ofyn am adolygiad o'r marcio ar un o'r seiliau canlynol:

- Nid yw'r marciau a ddyfarnwyd yn rhoi digon o gredyd am fodloni'r meini prawf cyhoeddedig
- Gwall gweinyddol
- Nid yw'r marc a ddyfarnwyd yn cyd-fynd â'r safonau a osodwyd gan y ganolfan.

Yn y lle cyntaf, dylech drafod eich pryderon gyda'ch darlithydd fydd yn gallu rhoi cyngor a chymorth i chi.

Os ydych yn dal yn anhapus, yna gallwch ofyn am adolygiad pellach trwy lenwi'r ffurflen hon. Ond, dylech ddeall bod y marc a ddyfarnwyd gan eich darlithydd yn un dros dro oherwydd gallai'r broses gymedroli a gynhelir



SAMPLE

gan y corff dyfarnu pan gyflwynir y canlyniadau arwain at newid marc, naill ai i fyny neu i lawr.

Y dyddiad cau i chi wneud cais i adolygu'r marcio yw: **Dyddiad uchod + 5 diwrnod.**

SAMPLE